Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Siarad am y Gymraeg

Canllaw ar greu Cynllun Cyfathrebu Mewnol



Cyflwyniad

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Mae cynyddu'r defnydd o'r iaith o fewn eich sefydliad yn gyfle i greu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o waith bob dydd – ac mae gan bawb ran i'w chwarae yn y daith honno.

Pwrpas y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i sefydliadau ar sut i gyfathrebu eu gweledigaeth ynglŷn â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol gyda'r gweithlu.

Mae'r canllaw hwn wedi ei ddatblygu ar sail theori newid mae swyddfa'r Comisiynydd wedi ei greu sy'n amlinellu sut mae gweithredu mewn gwahanol feysydd yn gallu arwain at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg dros amser.

Mae templedi modelau polisi ar gael hefyd sy'n rhoi strwythur i sefydliadau ddilyn er mwyn creu polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg fydd yn cynyddu defnydd o'r iaith ymysg y gweithlu, ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Er bod gofynion statudol ar sefydliadau cyhoeddus i greu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, mae'r neges bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn berthnasol i bob sector, ac mae gwerth i bob math o sefydliad gael cynllun ar sut i gyfathrebu am y Gymraeg gyda staff.

Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r camau i greu cynllun cyfathrebu mewnol effeithiol ar gyfer eich sefydliad.

Cam 1: Adnabod nod a gweledigaeth

Mae gosod gweledigaeth a nod ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eich sefydliad yn rhoi cyfeiriad clir i'r gwaith. Dylai polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg, ac unrhyw bolisïau neu strategaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r iaith adlewyrchu'r weledigaeth honno er mwyn sicrhau bod eich sefydliad yn gweithredu yn gyson.

Gweithredu: Defnyddiwch eich gweledigaeth i lywio negeseuon a chyfathrebu am y Gymraeg gyda'r gweithlu.

Cam 2: Dadansoddi cynulleidfa

Ni fydd union yr un negeseuon am y Gymraeg a nod eich sefydliad i weld cynnydd mewn defnydd yn addas i bawb. Mae'n ddefnyddiol felly ystyried pa fath o gynulleidfaoedd sydd angen eu targedu, a pha ffyrdd gwahanol fyddai'n effeithiol ar gyfer eu cyrraedd.

Mae mapio cynulleidfa yn ffordd o adnabod y grwpiau sy'n bodoli mewn sefydliad, a'u lefel dylanwad yng nghyd-destun y Gymraeg. Bydd deall y mathau gwahanol o gynulleidfa o help i dargedu ac addasu negeseuon yn effeithiol.

Gallwch ddefnyddio'r adnodd yng ngham 5 y Theori Newid i'ch cynorthwyo i fapio eich cynulleidfaoedd.

Gweithredu: Nodwch y prif grwpiau o fewn eich sefydliad, pa fath o ddylanwad sydd ganddynt, a pha negeseuon fydd yn apelio fwyaf atynt.

Cam 3: Negeseuon allweddol

Mae'n bwysig cael set o negeseuon craidd, sy'n berthnasol i bawb yn eich sefydliad – er y bydd angen addasu negeseuon er mwyn targedu'r cynulleidfaoedd wnaethoch chi adnabod yn Cam 2. Bydd y negeseuon craidd yma'n gosod y tôn ar gyfer cyfathrebu am y Gymraeg, ac mae'n bwysig eu hailadrodd yn gyson ac yn glir. Dylai'r negeseuon ddeillio o, ac adlewyrchu eich nod a'ch gweledigaeth.

Dyma rhai enghreifftiau:

> Mae'r Gymraeg yn cael ei pharchu yn ein sefydliad
> Rydym yn sefydliad dwyieithog ble mae cyfle i bawb ddefnyddio'u Cymraeg
> Does dim rhaid i'ch Cymraeg fod yn berffaith
> Fe wnawn ni eich cefnogi ar hyd y daith
> Mae gan bawb rôl i'w chwarae

Dyma fydd y negeseuon craidd, fydd yn cael eu hailadrodd yn rheolaidd a chyson gan reolwyr ac arweinwyr y sefydliad.

Gweithredu: Cytunwch ar negeseuon craidd a pherthnasol am y Gymraeg i'w defnyddio'n gyson ar draws eich sefydliad.

Cam 4: Rhannu cynulleidfaoedd

Edrychwch nawr ar y cynulleidfaoedd wnaethoch chi eu hadnabod, ac ystyriwch nhw yn unigol yn fwy manwl. Gall hyn ddibynnu yn rhannol ar faint y sefydliad, ond hyd yn oed mewn sefydliad bach, bydd sawl cynulleidfa wahanol debygol, ac mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i sut i'w targedu.

Mae angen meddwl am yr hyn mae bob cynulleidfa angen ei wybod; pa anogaeth neu sicrwydd sydd ei angen arnynt er mwyn cefnogi nod a gweledigaeth y sefydliad yng nghyd-destun y Gymraeg?

Dyma esiampl o'r mathau o gynulleidfaoedd all fodoli mewn sefydliad.

Math o gynulleidfa	Anghenion / Negeseuon allweddol	Negeseuon enghreifftiol	Dull cyfathrebu
Staff newydd / dechreuwyr	Anogaeth Awyrgylch ddiogel Negeseuon clir o'r cychwyn	Mae ein sefydliad yn eich cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg sydd gennych	• Sesiwn ymwybyddiaeth i ddechreuwyr • Fideo / astudiaeth achos gan staff yn sôn am sut maen

	Gosod y cyd-destun		nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn y sefydliad • Dogfen am y Gymraeg yn y sefydliad
Tîm Arwain	Canllawiau i gefnogi newid Cefnogaeth i arwain drwy esiampl	Gall eich defnydd chi o'r Gymraeg osod esiampl; defnyddiwch eich Cymraeg ar bob cyfle	• Sesiwn / cyflwyniad i godi ymwybyddiaeth o'r polisïau a rôl bwysig arweinwyr • Diweddariadau cyson mewn cyfarfodydd tîm arwain er mwyn sicrhau atebolrwydd • Annog arweinwyr i fanteisio ar gynlluniau fel Arwain Mewn Gwlad Ddwyieithog.
Dysgwyr (lefel canolradd / uwch)	Cyfleoedd anffurfiol i ymarfer Awyrgylch ddiogel Adnoddau i'w cefnogi Pontio rhwng dysgu a defnyddio	Defnyddia'r Gymraeg sydd gennyt; does dim rhaid bod yn berffaith	• Negeseuon e-bost cyson i atgoffa o adnoddau i gefnogi defnydd • Adran ar y fewnrwyd gyda mynediad hawdd at wybodaeth / adnoddau • Blogiau gan ddysgwyr eraill a chyfle i rannu profiadau
Dysgwyr (unrhyw lefel)	Cyfleoedd anffurfiol i ymarfer Awyrgylch ddiogel Adnoddau i'w cefnogi	Mae digon o gyfleoedd i ti ymarfer a defnyddio dy Gymraeg yma	• Sesiynau clonc neu sgwrs anffurfiol • Negeseuon rheolaidd i annog defnydd • Blogiau gan ddysgwyr eraill
Rhai sydd ddim yn ystyried eu hunain yn	Sicrwydd Lleihau pryderon	Mae gan bawb rôl i'w chwarae	• Sesiynau codi ymwybyddiaeth • Cyfres 'herio'r mythau'

ddefnyddwyr o'r Gymraeg	Ffyrdd i gymryd rhan		• Gair Cymraeg yr wythnos
Staff Adnoddau Dynol / Recriwtio	Dealltwriaeth o'r canllawiau Cefnogaeth i weithredu	Mae'r Gymraeg yn sgil gwerthfawr o fewn y sefydliad	• Canllawiau clir ar y Gymraeg o fewn y broses recriwtio • Prosesau i'w dilyn i sicrhau y gall ceisiadau a chyfweliadau gael eu cynnal yn Gymraeg

Dim ond rhai esiamplau yw'r rhain yn y tabl, sy'n dangos gwerth mewn deall pwy yw'r gynulleidfa, a theilwra negeseuon ar eu cyfer. Mae cyfathrebu'n gweithio orau pan mae'n berthnasol.

Gweithredu: Meddyliwch beth mae pob cynulleidfa angen ei wybod a theilwra eich negeseuon er mwyn eu hannog a'u cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cam 5: Adnabod sianeli cyfathrebu

Yn yr un modd ag y mae angen amrywio negeseuon ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, mae hefyd angen edrych ar wahanol sianeli neu gyfryngau cyfathrebu. Mae'n debygol y bydd angen defnyddio amrywiaeth o ffyrdd er mwyn cyfleu eich negeseuon, felly mae angen ystyried pa rai fydd mwyaf effeithiol.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer sianeli cyfathrebu:

- E-bost – diweddariad neu fwletin rheolaidd
- Teams neu ddull cyfathrebu mewnol fel Slack
- Cylchlythyron mewnol
- Blogiau
- Sesiynau gwybodaeth / hyfforddiant
- Posteri neu arwyddion ffisegol
- Cefndir sgrîn cyfrifiadur
- Mewnrwyd – ardal benodol i'r Gymraeg
- Cyfarfodydd staff
- Sesiynau anwytho staff
- Digwyddiadau anffurfiol e.e boreau coffi

Gweithredu: Meddyliwch a chynlluniwch sut gallwch chi ddefnyddio'r gwahanol sianelu er mwyn cyfleu eich negeseuon yn effeithiol.

Cam 6: Sicrhau cefnogaeth arweinwyr a rheolwyr

Mae cefnogaeth gan arweinwyr a rheolwyr yn hanfodol er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Nid yw hyn yn ymwneud â chymeradwyo polisi neu strategaeth yn unig, ond â dangos ymrwymiad drwy'r esiampl maen nhw'n ei gosod.

Pan fydd arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio'r Gymraeg ac yn dangos eu bod yn parchu'r iaith, mae'n annog eraill i wneud yr un peth. Gall camau syml, fel cadeirio a chynnal cyfarfodydd neu gyfathrebu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog, wneud yr iaith yn fwy amlwg a gweladwy gan helpu i greu diwylliant lle mae pawb yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio cam wrth gam.

Ydy rheolwyr ar bob lefel yn deall sut mae'r Gymraeg yn rhan o'u swydd nhw, a sut i gefnogi eu timoedd? Ydyn nhw'n deall eich bwriad o ran y Gymraeg, ac yn cefnogi eich amcanion? Mae cael eu cydsyniad nhw yn allweddol.

Ydyn nhw'n derbyn yr wybodaeth gywir ar yr adegau cywir e.e. wrth fynd drwy'r broses recriwtio er mwyn sicrhau bod yr angen am sgiliau Cymraeg yn cael ei adlewyrchu wrth hysbysebu swyddi?

Dewch â'ch arweinwyr ar y siwrne gyda chi, sicrhewch eu bod nhw'n deall ac yn cefnogi eich amcanion er mwyn adlewyrchu hynny yn y ffordd maen nhw'n gweithredu.

Efallai bod gennych grŵp o bencampwyr neu weithgor ar y Gymraeg o fewn y sefydliad. Sicrhewch eich bod chi'n eu cynnwys nhw, gan gasglu eu barn ar sut i gyfathrebu yn effeithiol, a'u hannog i rannu'r negeseuon yn gyson gyda chydweithwyr.

Gweithredu: Ystyriwch pwy yw'r arweinwyr neu'r rhai sy'n dylanwadau mewn meysydd neu adrannau allweddol yn eich gweithlu e.e. tîm arwain, adnoddau dynol neu TG. Sicrhewch eu bod yn deall eu rôl wrth gefnogi a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy eu hymddygiad a'u gweithredoedd.

Cam 7: Cynnwys llais y staff

Mae defnyddio iaith yn beth cymdeithasol. Mae modd ysbrydoli ac annog staff i ddefnyddio'u Cymraeg trwy rannu enghreifftiau gan gydweithwyr o sut maen nhw'n gwneud hyn o ddydd i ddydd. Trwy gasglu a rhannu straeon unigolion neu dimoedd o'u defnydd nhw o'r Gymraeg, gall sefydliad fagu bwrlwm ac ysbrydoli eraill i wneud yr un fath.

Mae gweld cydweithwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd yn helpu i wneud yr iaith yn fwy gweladwy ac yn dangos i eraill bod defnyddio'r Gymraeg yn rhywbeth y gall pawb fod yn rhan ohono. Gall enghreifftiau personol

helpu i greu ymdeimlad o gymuned, annog mwy o hyder, a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Gweithredu: Casglwch a rhannwch straeon ac enghreifftiau gan staff am sut a pham maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith bob dydd, er mwyn ysbrydoli eraill i wneud hynny hefyd.

Cam 8: Sianel ddwy ffordd

Mae'n bwysig ystyried sut gall staff gyfathrebu nôl gyda'r sefydliad, er mwyn annog dysgu a'ch galluogi chi i addasu eich strategaeth a dulliau cyfathrebu. Oes fforwm - rhithiol neu wyneb yn wyneb y gallwch ei ddefnyddio? Os oes gan eich sefydliad rhwydwaith o bencampwyr neu gydlynwyr y Gymraeg efallai gallan nhw hwyluso unrhyw sgwrs. Byddai adran ar fewnrwyd neu systemau mewnol hefyd yn galluogi staff i rannu adborth yn ysgrifenedig, o bosib yn ddienw, er mwyn gwneud hyn mor hawdd â phosib.

Bydd creu sianeli sy'n rhoi cyfle i staff rannu adborth a syniadau yn sicrhau bod cyfathrebu yn fwy effeithiol.

Gweithredu: Sefydlwch sianeli adborth clir a hygyrch er mwyn galluogi staff i rannu eu barn, eu syniadau a'u profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefydliad, a defnyddiwch yr adborth hwn i wella cyfathrebu.

Cam 9: Monitro a gwerthuso

Dylech chi ystyried beth fyddai'n edrych fel llwyddiant ar gyfer eich cynllun cyfathrebu mewnol. Gall gwerthuso fod ar sail mesurau meintiol neu ansoddol. Dyma ambell awgrym:

Meintiol

- Cyfraddau agor negeseuon e.e. bwletinau staff
- Ymateb i negeseuon unigol (sylwadau, hoffi ayyb)
- Nifer o weithiau mae fideo wedi cael ei wylio

Ansoddol

- Agweddau staff – gallwch fesur trwy holiadur*
- Grwpiau ffocws
- Adborth gan unigolion allweddol (rheolwyr, pencampwyr)
- Arsylwi ymddygiad neu arferion gwaith

Y prif amcan fydd gweld newid mewn agweddau ac ymddygiad staff o ran y Gymraeg dros gyfnod.

O fod wedi casglu adborth a monitro effeithiolrwydd cynllun cyfathrebu mewnol, efallai bydd angen i chi addasu wrth symud ymlaen. Mae'n bwysig bod y cyfathrebu yn gyson a pharhaus er mwyn bod pawb yn derbyn y negeseuon allweddol ac yn dod ar y daith.

*Mae'r Comisiynydd yn bwriadu cyhoeddi holiadur safonol y bydd modd i bob sefydliad ddefnyddio i fesur defnydd staff o'r Gymraeg. Bydd yr holiadur hwn yn fodd effeithiol i chi sefydlu gwaelodlin o ddefnydd iaith staff ac i werthuso cynnydd dros amser.

Gweithredu: Sefydlwch ffyrdd o fonitro a gwerthuso effaith eich cynllun cyfathrebu mewnol, gan gasglu adborth gan staff a defnyddio'r canlyniadau i addasu a gwella dros amser.

Beth nesaf?

Mae gan y Comisiynydd amryw o adnoddau a chanllawiau i'ch cynorthwyo. Ewch i'n Porth Adnoddau i weld beth arall sydd ar gael. Er enghraifft, mae gwybodaeth am greu Pencampwyr neu Gynllun Mentora o fewn eich sefydliad er mwyn cefnogi staff i ddefnyddio'u Cymraeg.

Porth Adnoddau

Os am sgwrs am gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eich gweithle chi, cysylltwch ar post@cyg-wlc.cymru